# Obinutuzumab ar gyfer lymffoma ffoliglaidd datblygedig heb ei drin

21 Mawrth 2018

Mae obinutuzumab (Gazyvaro) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer lymffoma ffoliglaidd datblygedig heb ei drin yn flaenorol mewn oedolion sydd â risg canolradd neu uchel o farw o'u cyflwr.

Os nad ydych yn gymwys i gael obinutuzumab, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Cymdeithas Lymffoma, 0808 808 5555
- GOFAL Lewcemia, 08088 010 444
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2879-8

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights